# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cofnodion (SJR(2)-07-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 3 Mai 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00am – 12.00pm
### Lleoliad y cyfarfod: y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Emyr Roberts | Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Jo Jordan | Cyfarwyddwr yr Uned Diogelwch Cymunedol |
| Linda Whittaker | Cyfarwyddwr Tai |
| Anne Stephenson | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| John Rees | Y Gyfarwyddiaeth Dai |

| | |
|---|---|
| Tracey Breheny | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |

### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yw'n berthnasol) | Eitem(au) |
|---|---|---|
| Carol Bernard CBE | Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Cymru | 8 |
| Jim A'Herne | Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Cymru | 8 |

### Gwasanaeth y Pwyllgor

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Laura Anne Jones. Nid oedd unrhyw un yn dirprwyo.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant

1.4 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papurau: SJR(2)-05-06 (min) SJR(2)-06-06 (min)

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 a 30 Mawrth 2006.

### Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog

Papur: SJR(2)-07-06(p.1) Atodiad A, B, C, 1

### Camau i'w cymryd

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ysgrifennu at Aelodau ar ôl y Pwyllgor yn eu hysbysu ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynodd ar lafar i'r Pwyllgor ar Ailstrwythuro'r Heddlu. Cytunodd hefyd i gynnwys manylion y llythyr y mae'n bwriadu ei anfon at yr Ysgrifennydd Cartref ar y materion praesept

Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio i'r materion sy'n ymwneud â digartrefedd o ganlyniad i weithwyr mudol yn Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Y Gweinidog i ysgrifennu at Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gael manylion y materion hyn

Cytunodd y Gweinidog i drafod nifer y bobl sy'n camddefnyddio cocên crac mewn chwe mis i weld a fu unrhyw newid

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog yn cyfleu cefnogaeth y Pwyllgor o'i gwaith o ran Ailstrwythuro'r Heddlu

### Eitem 4: Rheoliadau Drafft ar Becynnau Gwybodaeth am Eiddo

Papur: SJR(2)-07-06(p.2)

Nodwyd y papur

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu'r rheoliadau drafft ar Becynnau Gwybodaeth am Eiddo ynghyd â nodyn ar y materion y mae'n ymdrin â hwy ar ôl eu derbyn gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog

Dywedodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn ystyried lobïo ar y systemau contractau tai ac y byddai'n adrodd yn ôl. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at Lywodraeth y DU.

### Eitem 5: Cynllun Gweithredu ar Dlodi Plant

Papur: SJR(2)-07-06(p.3) Atodiad A, B, C

Nodwyd y papur

### Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i gynnwys adran ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ei phapur ar

Gymunedau yn Gyntaf ym mis Gorffennaf.

Cytunodd y [Dirprwy] Weinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor bob chwe mis ar gynnydd y Cynllun Gweithredu ar Dlodi Plant.

Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi rhaglen o ymweliadau yn Sweden i astudio sut y mae tlodi plant bron wedi'i ddileu yno.

## Eitem 6: Is-ddeddfwriaeth

Papur: SJR(2)-07-06(p.4) Atodiad 1, 2

Nodwyd y papur

## Eitem 7: Swyddog Cyswllt yr Heddlu

Papur: SJR(2)-07-06(p.5) Atodiad 1, 2

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor na fu'n bosibl i Swyddog Cyswllt yr Heddlu fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor a ad-drefnwyd ac y caiff yr eitem ei haildrefnu.

## Eitem 8: Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Cymru

Papur: SJR(2)-07-06(p.6)

Croesawodd y Cadeirydd Carol Bernard CBE, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Cymru a Jim A'Herne o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Cymru i'r Pwyllgor. Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad ar y system Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol a'r broses o ailstrwythuro'r Gwasanaeth Prawf.

## Cam i'w gymryd

Cytunodd y Clerc i ysgrifennu at Carol Bernard yn nodi'r camau i'w cymryd a gododd o'r drafodaeth

## Eitem 9: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 2005/06

Papur: SJR(2)-07-06(p.7)

Nodwyd y papur a chytunwyd ar yr Adroddiad